OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 18 (Cy. 6)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Strategol (Cyfansoddiad Paneli a Gwariant Cymwys) (Cymru) 2016

Gwnaed - - - - 11 Ionawr 2016
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 13 Ionawr 2016
Yn dod i rym - - 16 Mawrth 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 122 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**1**) a pharagraffau 5 ac 16 o Atodlen 2A i'r Ddeddf honno.

RHAN 1

Materion rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Strategol (Cyfansoddiad Paneli a Gwariant Cymwys) (Cymru) 2016 a deuant i rym ar 16 Mawrth 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;

ystyr "gofynion cyfansoddiad" ("*composition requirements*") yw'r gofynion yn rheoliad 3;

ystyr "panel" ("*panel*") yw panel cynllunio strategol(**2**).

(**1**) 2004 p. 5. Mewnosodwyd Atodlen 2A gan adran 4 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ac Atodlen 1 iddi.
(**2**) *Gweler* Rhan 1 o Atodlen 2A i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ar gyfer darpariaethau ynghylch paneli cynllunio strategol.

RHAN 2

Paneli cynllunio strategol

Gofynion cyfansoddiad panel

3. Yn ddarostyngedig i reoliad 4(2), y gofynion cyfansoddiad yw'r canlynol—

(a) rhaid i fenywod gyfansoddi o leiaf 40% o'r aelodau o banel sy'n aelodau awdurdod cynllunio lleol; a

(b) rhaid i ddynion gyfansoddi o leiaf 40% o'r aelodau hynny o banel.

Eithriad o'r gofynion cyfansoddiad

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid oes angen cydymffurfio â'r gofynion cyfansoddiad os yw cyfansoddiad yr awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol yn gwneud y gofynion cyfansoddiad yn annichonadwy.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, y gofynion cyfansoddiad yw fod rhaid i fenywod a dynion gyfansoddi canrannau o'r aelodau awdurdod cynllunio lleol ar y panel sydd mor agos ag y bo'n ymarferol at 40% o'r naill a'r llall.

Dyletswydd i gydweithredu er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfansoddiad

5. Rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol(**3**) gydweithio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfansoddiad.

Dyletswydd i adolygu'r gofynion cyfansoddiad

6. Rhaid i banel barhau i adolygu cyfansoddiad y panel at y diben o fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfansoddiad.

Gofynion adrodd

7.—(1) Os na chaiff y gofynion cyfansoddiad eu bodloni, rhaid i'r panel baratoi adroddiad ar ei gydymffurfiaeth â'r gofynion cyfansoddiad, yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r adroddiad sy'n ofynnol o dan baragraff (1) gynnwys yr wybodaeth ganlynol—

(a) manylion am sut y methir â bodloni'r gofynion cyfansoddiad;

(b) y rhesymau pam y methwyd â bodloni'r gofynion cyfansoddiad;

(c) y camau a gymerwyd gan y panel a'r/neu'r awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol i fodloni'r gofynion cyfansoddiad.

(3) Rhaid i'r adroddiad sy'n ofynnol o dan baragraff (1) gael ei lofnodi gan gadeirydd y panel neu, yn absenoldeb y cadeirydd, gan ddirprwy gadeirydd y panel.

(4) Rhaid i'r panel anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru o fewn 12 wythnos ar ôl y dyddiad y methir â bodloni'r gofynion cyfansoddiad.

(5) Rhaid i banel, ddim hwyrach na 7 diwrnod ar ôl y dyddiad yr anfonodd adroddiad at Weinidogion Cymru o dan y rheoliad hwn, hysbysu'r awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol ynghylch cyflwyno'r adroddiad.

(6) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriad at adroddiad yn cynnwys adroddiad fel y'i diwygiwyd.

(**3**) *Gweler* paragraff 3(3) o Atodlen 2A i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ar gyfer ystyr "constituent local planning authority" ("awdurdod cynllunio lleol cyfansoddol").

(7) Mae unrhyw ofyniad i anfon adroddiad at Weinidogion Cymru o dan y rheoliad hwn yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi'r adroddiad.

(8) Mae anfon adroddiad at Weinidogion Cymru neu ei gyhoeddi o dan y rheoliad hwn yn cynnwys anfon neu gyhoeddi'r adroddiad yn electronig.

Hysbysiad o fethiant i gydymffurfio â'r gofynion adrodd

8.—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn credu bod panel yn methu â gwneud, neu'n hepgor gwneud, unrhyw beth y mae angen iddo ei wneud at y diben o gydymffurfio â'r gofynion adrodd yn rheoliad 7, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r panel yn unol â pharagraff (2) ac o fewn y cyfnod hysbysu a bennir ym mharagraff (3).

(2) Rhaid i'r hysbysiad nodi manylion y methiant neu'r hepgoriad.

(3) Y cyfnod hysbysu a bennir at ddibenion paragraff (1) yw—

(a) 6 wythnos sy'n dechrau gyda'r dyddiad y cafodd Gweinidogion Cymru adroddiad o dan reoliad 7;

(b) yn absenoldeb adroddiad, 6 wythnos sy'n dechrau gyda'r dyddiad y daeth Gweinidogion Cymru i gredu bod y panel yn methu â gwneud, neu'n hepgor gwneud, unrhyw beth y mae angen iddo ei wneud at y diben o gydymffurfio â'r gofynion adrodd yn rheoliad 7.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru estyn y cyfnod hysbysu ym mharagraff (3) os tybiant fod angen gwneud hynny.

(5) Rhaid i'r panel, ddim hwyrach nag 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad gan Weinidogion Cymru, anfon ateb at Weinidogion Cymru sy'n nodi'r modd y mae'r panel yn bwriadu unioni'r methiant neu'r hepgoriad.

Pwerau mewn achos o fethiant i gydymffurfio

9.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn credu bod panel neu awdurdod cynllunio lleol cyfansoddol yn methu â gwneud, neu'n hepgor gwneud, unrhyw beth y mae angen iddo ei wneud at y diben o gydymffurfio â gofyniad penodedig.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo panel neu awdurdod cynllunio lleol cyfansoddol i gymryd pa bynnag gamau a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru at y diben o gydymffurfio â gofyniad penodedig.

(3) Rhaid i banel neu awdurdod cynllunio lleol cyfansoddol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo o dan y rheoliad hwn.

(4) Gofyniad penodedig yw gofyniad a osodir gan unrhyw un o ddarpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn—

(a) rheoliad 3 (gofynion cyfansoddiad panel);

(b) rheoliad 5 (dyletswydd i gydweithredu er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfansoddiad);

(c) rheoliad 6 (dyletswydd i adolygu'r gofynion cyfansoddiad);

(d) rheoliad 8(1) (hysbysiad o fethiant i gydymffurfio â'r gofynion adrodd).

Effaith methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd ynghylch gofynion cyfansoddiad

10. Effaith methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan reoliad 9(2)_mewn perthynas â gofyniad penodedig yn rheoliad 9(4)(a)_yw fod hawliau pleidleisio aelod o awdurdod cynllunio lleol cyfansoddol a bennir yn y cyfarwyddyd wedi eu hatal hyd nes bodlonir y gofynion cyfansoddiad.